**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref Public Libraries and Museums Act

John Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

6 Mehefin 2023

Annwyl John,

Diolch ichi am eich llythyr yn ymwneud â Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964.

Fel y gwyddoch, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaeth 'cynhwysfawr ac effeithlon'. Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf yn manylu nac yn diffinio'r hyn yw gwasanaeth 'cynhwysfawr ac effeithlon'. Mae gwasanaethau llyfrgell yn amrywio ledled Cymru a chyfrifoldeb awdurdodau lleol unigol yw penderfynu ar y trefniadau ar gyfer darparu eu gwasanaethau llyfrgell a hynny gan ystyried anghenion eu cymunedau lleol. Ni fyddai'n briodol i Lywodraeth Cymru gyfyngu ar allu awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaeth sy'n seiliedig ar anghenion lleol.

Ers cyflwyno fframwaith cyntaf Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn 2002, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ein disgwyliadau ar awdurdodau lleol o ran eu darpariaethau llyfrgell. Cyn i'r pandemig darfu ar bethau, diweddarwyd y fframweithiau hyn bob tair blynedd. Mae'r dull hwn wedi ein galluogi i fonitro lefel y darpariaethau yn ogystal â chefnogi ac annog prosesau o ddatblygu gwasanaethau newydd mewn llyfrgelloedd.

Gallai disgrifiad o wasanaeth llyfrgell sydd wedi'i ddiffinio'n fwy caeth ac sydd wedi'i ymgorffori mewn deddfwriaeth atal awdurdodau lleol rhag datblygu ac arloesi. Er enghraifft, rydym yn gweld llyfrgelloedd lleol yn datblygu 'Gofodau Gwneud'. Mae'n annhebygol y byddai cyfleusterau o'r fath wedi dod o dan y diffiniad o wasanaeth llyfrgell hyd yn oed ychydig o flynyddoedd yn ôl. Yr hyblygrwydd hwn yw'r rheswm dros y ffaith nad wyf wedi ystyried cysylltu'r fframwaith polisi i'r ddeddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.